Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Darparu eitemau cyfarpar diogelu personol: hyd at 26 Medi 2021

Diweddariad gwybodaeth rheoli ar eitemau cyfarpar diogelu personol (PPE) sydd wedi'u darparu yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19) hyd at 26 Medi 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Medi 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Prif ganlyniadau

Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

# Prif ganlyniadau

Mae’r ystadegau hyn yn dangos y nifer diweddaraf o eitemau PPE sydd wedi’u darparu i’r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

- Ers 9 Mawrth 2020, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) wedi darparu dros 1 biliwn o eitemau PPE i’r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Darparwyd tua 465 miliwn o'r rhain i'r sector gofal cymdeithasol.
- Yn y saith niwrnod hyd at ddydd Sul 26 Medi 2021, darparwyd dros 10 miliwn o eitemau.
- Mae’r nifer wythnosol o eitemau PPE a ddarparwyd wedi cynyddu’n gyffredinol ers mis Mawrth 2020 gan gyrraedd uchafbwynt o 20.2 miliwn ym mis Mai 2020. Ers hynny, mae nifer yr eitemau a ddarparwyd bob wythnos wedi amrywio ond at ei gilydd mae wedi aros o gwmpas 14 miliwn ac eithrio'r wythnos a ddaeth i ben ar 28 Mawrth 2021 pan ddarparwyd 31.5 miliwn o eitemau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Tabl 1: Nifer yr eitemau PPE a ddarparwyd

| Eitem | Ers 9 Mawrth 2020 | Yn y saith diwrnod hyd at 26 Medi 2021 |
|---|---|---|
| **Ffedogau** | 161,937,850 | 919,300 |
| **Bagiau cyrff** | 11,728 | 30 |
| **Cyfarpar amddiffyn llygaid** | 1,638,706 | 150 |
| **Masgiau Math I a Masgiau Math II** | 1,476,550 | 14,350 |
| **Masgiau Math IIR** | 208,488,276 | 1,181,710 |
| **Masgiau FFP2** | 127,044 | 0 |
| **Masgiau FFP3 (3M)** | 3,463,814 | 43,000 |
| **Masgiau FFP3 (arall)** | 182,500 | 0 |
| **Feisorau wyneb** | 6,650,606 | 33,210 |
| **Gosod citiau profi a darnau sbâr** | 6,206 | 3 |
| **Menyg** | 578,369,750 | 6,871,400 |
| **Menyg â chyffiau** | 1,446,450 | 1,500 |
| **Gynau (gwrth-hylif)** | 3,206,603 | 57,611 |
| **Gynau (arall)** | 780,822 | 7,494 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Eitem | Ers 9 Mawrth 2020 | Yn y saith diwrnod hyd at 26 Medi 2021 |
|---|---|---|
| **Hylif diheintio dwylo** | 570,235 | 3,347 |
| **Clytiau diheintio dwylo** | 81,140,850 | 1,252,575 |
| **Cyflau anadlyddion** | 102 | 0 |
| **Hidlyddion anadlyddion** | 35,273 | 0 |
| **Cyfanswm** | 1,049,533,365 | 10,385,680 |

Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Mae’r ffigurau a nodir ar gyfer eitemau PPE wedi’u seilio ar unedau unigol, ac eithrio:

- menyg: caiff uned ei nodi ar sail maint uned pecyn
- hylif diheintio dwylo: potel yw’r uned ni waeth beth fo’r maint

Noder: Mae'r data hwn yn ddarostyngedig i ddiwygiadau ac nid yw cyhoeddiadau blaenorol yn cael eu diwygio. Y ffigurau diweddaraf yw'r ffigurau mwyaf cyfoes a bydd ffigurau cronnol yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau hanesyddol.

O fis Mai 2021, mae masgiau FFP3 wedi cael eu rhannu yn ddau gategori: masgiau FFP3 (3M) a masgiau FFP3 (arall). Mae’r categorïau hyn yn darparu dadansoddiad pellach o lefelau stoc er mwyn gallu monitro’n fanylach ac maent wedi’u hôl-ddyddio i fis Gorffennaf 2020 yn y datganiad a’r tablau cysylltiedig ar **StatsCymru**.


Mae Tabl 1 yn cynnwys y data ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf. Bydd tablau manylach sy’n cynnwys y dadansoddiadau fesul wythnos ers y cyhoeddiad blaenorol, ar gael ar wefan **StatsCymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 1: Nifer Wythnosol o eitemau PPE a ddarparwyd ers 9 Mawrth 2020




Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Ceir amrywiadau yn nifer wythnosol yr eitemau PPE a ddarparwyd pan fydd storfeydd lleol yn defnyddio eu stociau presennol sy'n arwain at lai o eitemau wedi'u darparu ar gyfer yr wythnos honno. Bydd gwyliau banc hefyd yn cael effaith ar faint o stoc a archebir a gall arwain at ostyngiad yn ystadegau'r wythnos ganlynol.

Darparir PPE ar gyfer pecynnau brechu mewn swmp ac yna fe'i defnyddir dros nifer o wythnosau. Gall hyn arwain at niferoedd uwch o rai eitemau a ddarparwyd (fel masgiau Math IIR) am rai wythnosau. Dyma achos y cynnydd mewn eitemau a ddarparwyd ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar Fawrth 28 2021.

Mae'r data sy'n cyd-fynd â'r siart ar gael ar **StatsCymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

Gwybodaeth rheoli yw'r data hyn a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP). Mae NWSSP yn caffael ac yn dosbarthu PPE ar gyfer y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym yn cyhoeddi hyn er mwyn rhoi crynodeb wythnosol o eitemau PPE a ddarparwyd tra mae'n dal i fod yn berthnasol i'r ymateb i'r pandemig coronafeirws (COVID-19). Nid yw'r data hyn wedi mynd drwy'r un lefel o sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol a gellid diwygio'r data yn y dyfodol.

Mae'r byrddau iechyd lleol yn archebu eitemau o gyfarpar diogelu personol (PPE) gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) drwy system ar-lein. Yna caiff yr eitemau eu dosbarthu o warysau NWSSP drwy slotiau dosbarthu a drefnwyd. Mae prosesau ar waith hefyd i fyrddau iechyd lleol ofyn am gael cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol ar frys os oes angen, ac mae'r danfoniadau brys hyn wedi'u cynnwys yn y data hyn. Mae'n bosibl i rai eitemau gael eu dogni o bryd i'w gilydd os yw'r stociau'n isel. Mae'r byrddau iechyd lleol yn cadw eu stociau PPE eu hunain ac mae'n bosibl hefyd eu bod yn cael gafael ar gyflenwadau ar wahân i'r broses hon. Dim ond stoc o NWSSP y mae'r data yn ei gynnwys ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw stoc y mae'r GIG neu awdurdodau lleol wedi'i gaffael yn uniongyrchol. Bydd y data yn cynnwys PPE wedi'i gaffael yn uniongyrchol gan NWSSP yn ogystal â PPE a ddosbarthwyd i NWSSP gan Lywodraeth y DU. Mae'n cynnig ciplun o'r sefyllfa ar adeg benodol wrth i'r sefyllfa honno newid.

Darparir PPE ar gyfer pecynnau brechu mewn swmp ac yna fe'i defnyddir dros nifer o wythnosau. Gall hyn arwain at niferoedd uwch o rai eitemau a ddarparwyd (fel masgiau Math IIR) am rai wythnosau

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys eitemau PPE a ddarparwyd ers 9 Mawrth 2020 gan mai dyma pryd y sefydlwyd y trefniadau adrodd presennol.

Cyhoeddir data ar gyfer **Lloegr** ar **dudalennau ystadegau a dadansoddi Coronafeirws (COVID-19)** y wefan GOV.UK

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyhoeddir data ar gyfer yr Alban ar **dudalennau ystadegau dosbarthu cyfarpar diogelu personol Coronafeirws (COVID-19)** y wefan GOV.SCOT

Cyhoeddir data ar gyfer Gogledd Iwerddon ar **dudalennau ystadegau Coronafeirws (COVID-19)** y wefan NISRA.GOV.UK

Ni ellir cymharu'r data hyn oherwydd bod gan y gwledydd ddiffiniadau a dadansoddiadau gwahanol o eitemau cyfarpar diogelu personol.

Mae'r data yn y datganiad hwn yn gywir am 8yp ar 26 Medi 2021.

## Statws Ystadegau Gwladol

Nid yw'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol. Ond cyn belled ag sy'n ymarferol, maent wedi'u casglu a'u dilysu yn unol â'r pileri a'r egwyddorion yn y **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**. Rydym yn parhau i ddatblygu'r data a gasglwyd a'r broses sicrwydd ansawdd i wella'r data.

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddatblygiadau ar draws y byd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Diben y nodau yw creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus, a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ('dangosyddion cenedlaethol') y mae'n rhaid eu defnyddio at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth ar y dangosyddion, ynghyd â disgrifiad o bob un o'r nodau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach ar **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd gyfrannu at y dangosyddion cenedlaethol a gellir eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer llunio asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol.

### Diweddariad nesaf

Mae amlder y datganiad hwn wedi newid o bob pythefnos i bob mis, ac mae'n cynnwys data ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf. Bydd tablau manylach sy'n cynnwys y dadansoddiadau fesul wythnos ers y cyhoeddiad blaenorol, ar gael ar wefan **StatsCymru**.

Bydd y datganiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau 28 Hydref 2021.

### Rydym eisiau eich adborth

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn. Gallwch anfon adborth dros e-bost i **kas.covid19@llyw.cymru**.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Lisa Bloemberg
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

SFR 307/2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Darparu eitemau cyfarpar diogelu personol: hyd at 26 Medi 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/darparu-eitemau-cyfarpar-diogelu-personol-hyd-26-medi-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.